# Deddf Is-ddeddfau Llywodraeth Leol (Cymru) 2012

**2012 dccc 2**

*Gorfodi is-ddeddfau*

## 10 Tramgwyddau yn erbyn is-ddeddfau

(1) Caiff is-ddeddfau a wneir gan awdurdod deddfu o dan unrhyw ddeddfiad ddarparu bod personau sy'n mynd yn groes i'r is-ddeddfau yn atebol ar gollfarn ddiannod i ddirwy.

(2) Rhaid i'r ddirwy beidio â bod yn uwch na'r canlynol, naill ai –

(a) y swm a bennir gan y deddfiad sy'n rhoi'r pŵer i wneud yr is-ddeddfau, neu

(b) os na phennir y swm felly, lefel 2 ar y raddfa safonol.

(3) Yn achos tramgwydd sy'n parhau, caiff yr is-ddeddfau ddarparu bod y tramgwyddwr yn atebol ar gollfarn ddiannod i ddirwy bellach.

(4) Rhaid i'r ddirwy bellach beidio â bod yn uwch na'r canlynol, naill ai –

(a) y swm a bennir gan y deddfiad sy'n rhoi'r pŵer i wneud yr is-ddeddfau, neu

(b) os na phennir swm felly, y swm o £5 am bob diwrnod y mae'r tramgwydd yn parhau ar ôl collfarn am y tramgwydd hwnnw.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 10 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 22(2)**

**I2** A. 10 mewn grym ar 31.3.2015 gan O.S. 2015/1025, **ergl. 2(i)**

## 11 Is-ddeddfau adran 2; pwerau ymafael etc

Caiff is-ddeddf a wnaed o dan adran 2 gynnwys darpariaeth ar gyfer neu mewn cysylltiad â'r canlynol –

(a) ymafael mewn unrhyw eiddo a'i gadw mewn cysylltiad ag unrhyw doriad o'r is-ddeddf, a

(b) fforffedu unrhyw eiddo o'r fath pan gaiff person ei gollfarnu o dramgwydd am dorri'r is-ddeddf.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I3** A. 11 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 22(2)**

**I4** A. 11 mewn grym ar 31.3.2015 gan O.S. 2015/1025, **ergl. 2(j)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Is-ddeddfau Llywodraeth Leol (Cymru) 2012, Croes Bennawd: Gorfodi is-ddeddfau.